# PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2012

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd J. Arwel Roberts (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr W.J.Chorlton; E.G.Davies; R.Dew; Lewis Davies; Jim Evans; W.T.Hughes; K.P.Hughes; Clive McGregor; R.L.Owen; Eric Roberts; H.W.Thomas;

Y Cynghorydd R.LL.Hughes (Aelod Portffolio)

**WRTH LAW:** Rheolwr Datblygu Cynllunio (DFJ);
Cynorthwy-ydd Cynllunio(AMG);
Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ);
Uwch Beiriannydd (Rheoli Datblygu) (EJ);
Swyddog Rheoli Datblygu (RE);
Swyddog Pwyllgor (JMA) ;

Draft

---

**1 YMDDIHEURIADAU/CYHOEDDIADAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.
Rhoes y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Vaughan Hughes i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Eglurodd y Cadeirydd na fyddai'r Cynghorydd Hughes yn cymryd rhan yn y cyfarfod hyd oni fyddai wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol.
Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith y bydd Maureen Guiney a Jan Adams ill dwy yn ymddeol yn y dyfodol agos. Diolchodd iddynt am eu cyfraniad i'r Pwyllgor a dymunodd yn dda iddynt yn y dyfodol.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb a chawsant eu cofnodi dan yr eitemau perthnasol.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2012.

**4 YMWELIADAU SAFLEOEDD**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd - cofnodion yr Ymweliadau Safleoedd a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2012 ar yr amod y cofnodir bod y Cynghorydd Hefin Thomas yn bresennol yn y ddau ymweliad.

**5 SIARAD CYHOEDDUS**

Dywedodd y Cadeirydd y byddai siaradwyr cyhoeddus ar gyfer eitemau 7.1, 7.3, 12.3 a 12.6.

**6 CEISIADAU A OHIRIWYD**

**6.1 – 16C48G – Cais llawn i godi sied amaethyddol yn Ger y Bryn, Bryngwran.**

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio ei fod yn argymell gohirio'r cais fel y gellir parhau i gynnal trafodaethau gyda'r ymgeisydd/asiant ynglŷn â'r angen amaethyddol am y sied arfaethedig ynghyd â'r posibilrwydd o ddiwygio'r cynllunio i ostwng maint y sied a'i symud yn nes at yr annedd bresennol.

**PENDERFYNWYD gohirio'r drafodaeth ar y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

**6.2 – 20C277 – Cais llawn ar gyfer codi un twrbin gwynt gyda hwb hyd at 44m o uchder, rotor o hyd at 56m ar ei draws a hyd at 72m i flaen fertigol y llafn ynghyd â chodi gorsaf ar gyfer trawsnewidydd, lle ar gyfer gwasanaethau a thrac mynediad newydd a llecyn caled ar dir yn Tai Hen, Rhosgoch.**

*Datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd W.T.Hughes.*

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod angen i'r Aelodau, yn ei farn ef, ymweld â'r safle er mwyn gwerthfawrogi maint a chyd-destun y tyrbin arfaethedig cyn gwneud penderfyniad ar y cais.

**PENDERFYNWYD ymweld â'r safle yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

**6.3 – 44C292 - Cais llawn ar gyfer codi un twrbin gwynt gyda hwb hyd at 44m o uchder, rotor o hyd at 56m ar ei draws a hyd at 72m i flaen fertigol y llafn ynghyd â chodi gorsaf ar gyfer trawsnewidydd, lle ar gyfer gwasanaethau a thrac mynediad newydd a llecyn caled a ffurfio ffordd gyswllt newydd ger y gyffordd gyda'r B5111 ar Gaeau Ordnans 0268 ar dir sy'n gysylltiedig â Llety, Rhosybol.**

*Datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd W.T.Hughes.*

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod angen i'r Aelodau, yn ei farn ef, ymweld â'r safle er mwyn gwerthfawrogi maint a chyd-destun y tyrbin arfaethedig cyn gwneud penderfyniad ar y cais.

**PENDERFYNWYD ymweld â'r safle yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**

*Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio fod yr Aelodau wedi cael gwahoddiad i ymweld â Moel Molgan ger Llanrwst, fodd bynnag, nid oedd o'n credu bod hynny'n briodol ar hyn o bryd, oherwydd dylai'r Aelodau ymweld â safleoedd y ceisiadau cyfredol a amlinellir uchod. Ychwanegodd y bydd yr Adran Gynllunio efallai yn trefnu i Aelod ymweld â safleoedd eraill yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol petai hynny'n ddefnyddiol..*

Draft

**7. CEISIADAU'N CODI O'R COFNODION**

**7.1 - 14C42J - Cais llawn i godi adeilad trin dŵr, tewychu llaid, tanc dal, adeiladu ffordd fynediad i'r safle, codi ffens ddiogelwch a gwaith tirlunio cysylltiedig yng Ngwaith Trin Dwr Cefni, Bodffordd.**

Daethpwyd â'r cais gerbron y Pwyllgor ar gais yr Aelod Lleol, y Cynghorydd W.I.Hughes. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf, derbyniodd yr Aelodau argymhelliad y Swyddog y dylid ymweld â'r safle cyn gwneud penderfyniad ar y cais. Aethpwyd i ymweld â'r safle ar 18 Gorffennaf 2012.

Rhoes y Cadeirydd wahoddiad i Mr Arwel Stephen, Gwrthwynebydd, i annerch y Pwyllgor.

Dywedodd Mr Stephen ei fod yn cynrychioli trigolion Bythynnod Cefni a'r fferm gyfagos, Tŷ Gwyn. Pwysleisiodd nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad mewn egwyddor, fodd bynnag, roedd pryderon difrifol ynghylch edrychiad a lleoliad yr adeilad newydd a'r systemau ynddo - y cyfan yn faterion oedd o fewn rheolaeth y Pwyllgor.
Gofynnodd i'r Pwyllgor ystyried y canlynol:-

- Cynnwys amod y bydd yr adeilad newydd yn cael ei adeiladu o garreg neu'n cael ei chwipio â gro;
- Gostwng uchder yr adeilad;
- Ail-leoli'r adeilad ymhellach oddi wrth y bythynnod;
- Cynnwys amod y bydd gwaith ar sefydlu'r twmpath pridd yn cychwyn o fewn 12 mis o ddyddiad cychwyn gwaith ar y datblygiad gan gadw mewn cof y bydd yn cymryd 4 blynedd i'r twmpath ddarparu sgrin effeithiol.

Rhoes y Cadeirydd wahoddiad i Mr Howard Jones, a oedd yn cefnogi'r cais, i annerch y Pwyllgor. Gwnaeth Mr Jones y sylwadau isod:-

- Mae'r datblygiad yn angenrheidiol er mwyn cwrdd ag anghenion yr Arolygiaeth Dwr;
- Mae pibelli yn croesi rhannau eraill o'r safle felly nid oedd ail-leoli'r adeilad yn opsiwn;
- Roedd uchder yr adeilad arfaethedig wedi cael ei ostwng i'r lefel isaf bosibl yn dilyn cyfarfodydd gyda thrigolion y bythynnod;
- Nid oes unrhyw ffenestri yn nhalcen y bythynnod a bydd yr adeilad 55 metr i ffwrdd;
- Bydd bwnd 5m o uchder yn cael ei blannu gyda choed a llwyni sy'n tyfu'n sydyn a bydd y bwnd, yn y man, yn sgrinio'r adeilad yn gyfan gwbl;
- Ni fydd unrhyw gynnydd yn y mathau o gemegolion a ddefnyddir yn y gwaith;
- Ni fydd unrhyw draffig ychwanegol unwaith y bydd y datblygiad yn weithredol;
- Yn ystod y cyfnod adeiladu, bydd y safle'n cael ei reoli mewn modd diogel a phriodol;
- Cadarnhaodd na fyddai modd ail-leoli'r adeilad oherwydd bod y pibelli sydd yno'n barod yn cael eu defnyddio.

Gwnaeth yr Aelod Lleol, y Cynghorydd W.I.Hughes, y sylwadau a ganlyn:-

- Mae lleoliad yr adeilad yn annerbyniol a dylid ei ail-leoli ymhellach i'r chwith yn agosach at y coed
- Roedd uchder yr adeilad yn achosi pryder a byddai'n gostwng gwerth yr eiddo cyfagos;
- Byddai'r carbon y bwriedir ei ddefnyddio yn yr adeilad arfaethedig yn beryglus;
- Dim ymgynghori gyda Chlwb Pysgota Cefni – mae ffordd fynediad y clwb yn rhedeg ochr yn ochr â'r bythynnod;
- Dylid cytuno i ddarparu lle pasio ychwanegol fel rhan o'r gwelliannau i'r lôn;
- Dylid cymryd camau i geisio rhwystro pobl ifanc sy'n gyrru'n rhy gyflym rhag defnyddio'r ffordd;
- Dylid cyfyngu ar yr oriau gwaith;
- Mae'n bwysig cael barn yr Adain Iechyd yr Amgylchedd a rhoi ystyriaeth i'r farn honno;
- Dylid gwrthod y cais ac ail-leoli'r adeilad arfaethedig er lles y trigolion;

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio:-

- Y cafwyd ymweliad safle;
- Mater Iechyd a Diogelwch yw'r defnydd o garbon yn y gwaith prosesu;
- Ailgadarnhawyd uchder yr adeilad arfaethedig a'i bellter oddi wrth y bythynnod a'r ffaith mai dim ond un neu ddau fetr o'r adeilad fyddai'n weladwy unwaith y byddai'r ddarpariaeth sgrinio wedi sefydlu;
- Niwsans sŵn - mae'r Adain Iechyd yr Amgylchedd yn edrych ymhellach i'r mater ond yn ôl gwybodaeth a gafwyd yn yr ymateb cychwynnol, ni fyddai problemau yn hyn o beth;
- Byddai amod yn y caniatâd ynghylch tirlunio a gallai'r adran gynllunio fod yn hyblyg o ran pryd y byddai'n rhaid cychwyn ar y gwaith tirlunio;
- Byddai amod yn y caniatâd ar gyfer rheoli traffig;
- Byddai amod yn y caniatâd mewn perthynas ag oriau gwaith;
- Nid yw Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn fater cynllunio;
- Mae'r cynnig yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y cyflenwad dwr i'r ynys yn parhau a'i fod er budd y cyhoedd yn gyffredinol.
- Ailgadarnhaodd bod ei argymhelliad yn un o ganiatáu;
- Gellid cynnwys amod ynghylch lliw'r adeilad;

Draft

Dywedodd yr Uwch Beiriannydd (Rheoli Datblygu) y byddai cynllun rheoli traffig yn cael ei gytuno gyda'r datblygwr. Ni fyddai cynnydd yn y traffig i'r safle yn dilyn cwblhau'r gwaith ar yr adeilad newydd.

I gloi, dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio ei fod yn fodlon bod yr isadeiledd cyffredinol i'r safle yn foddhaol, roedd amodau wedi cael eu cynnwys fel rhan o'i adroddiad i'r Pwyllgor ac, yn ychwanegol at hynny, byddai amod priffyrdd yn cael ei gynnwys ynghyd ag unrhyw amod mewn perthynas â sŵn y bydd yr Adain Iechyd yr Amgylchedd o bosib, yn dymuno ei gynnwys. Byddai'n fodlon cynnwys amod ynghylch lliw'r adeilad ond byddai dyluniad a lleoliad yr adeilad yn unol â'r manylion a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd.

Cynigiodd y Cynghorydd John Arwel Roberts y dylid caniatáu'r cais ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a chyda'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad ac fel y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod o'r Pwyllgor.**

*Ymatal eu pleidlais wnaeth y Cynghorwyr J.Chorlton, W.T.Hughes ac R.L.Owen oherwydd nad oeddynt yn bresennol yn yr ymweliad â'r safle.*

**7.2 – 24C192D – Codi twrbin gwynt gyda hwb hyd at 15m o uchder, rotor o hyd at 7.5m ar ei draws a hyd at 19m i flaen fertigol y llafn ar dir yn Rhiwlas, Nebo, Penysarn.**

*Datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd C.McGregor* **–** *ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r bleidlais oherwydd nad oedd yn bresennol yn yr ymweliad â'r safle. Ymatal rhag cymryd rhan yn y drafodaeth a'r bleidlais wnaeth y Cynghorydd Hefin Thomas hefyd oherwydd nad oedd wedi bod ar yr ymweliad safle.*

Ailgyflwynwyd y cais oherwydd y penderfyniad a wnaethpwyd gan y Pwyllgor i wrthod y cais yn groes i argymhelliad y Swyddog oherwydd y teimlad y Pwyllgor y câi effaith andwyol ar y dirwedd.

Dygodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio ar y ffaith nad oedd Swyddog Tirwedd yr Adran Cynllunio wedi codi unrhyw wrthwynebiad i'r cais, fodd bynnag, derbyniwyd dau lythyr ychwanegol ers i'r Pwyllgor drafod y cais (y naill gan berson a oedd yn cefnogi'r cais a'r llall gan yr ymgeisydd). Roedd argymhelliad y Swyddog yn parhau i fod yn un o ganiatáu.

Cynigiodd y Cynghorydd R.L.Owen y dylid gwrthod y cais ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd John Chorlton.

**PENDERFYNWYD ail-gadarnhau'r penderfyniad i wrthod y cais a hynny'n groes i argymhelliad y Swyddog.**

**7.3 – 39C291A/1 – Codi bloc o fflatiau yn cynnwys 6 o fflatiau 2 lofft ar dir yn Menai Quays, Stryd Paced, Porthaethwy.**

Roedd y cais gerbron y Pwyllgor oherwydd ei fod yn tynnu'n groes i bolisi a bod y Swyddogion yn argymell y dylid ei ganiatáu. Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf, penderfynwyd ymweld â'r safle yn unol ag argymhelliad y Swyddog. Ymwelwyd â'r safle ar 18 Gorffennaf 2012.

Rhoes y Cadeirydd wahoddiad i Mr Rhys Davies, Gwrthwynebydd, i annerch y cyfarfod. Dywedodd Mr Davies nad oedd perchenogion Gwesty'r Victoria yn gwrthwynebu'r egwyddor o ddatblygu'r ardal y mae wnelo'r cais â hi yn gyffredinol ond bod y cais hwn, yn eu barn nhw, yn mynd yn rhy bell. Byddai modd gweld trydydd llawr a tho'r bloc o fflatiau yn glir o gefn y Gwesty. Atgoffodd yr Aelodau fod Gwesty'r Victoria yn Adeilad Rhestredig ac y câi'r cynnig effaith ddifrifol

Draft

ar yr adeilad. Dyfynnodd o Gylchlythyr 61/96 a chyfeiriodd at y polisïau sy'n ymwneud â gwarchod Adeiladau Rhestredig. Awgrymodd y dylai'r ymgeisydd lynu wrth y cynnig gwreiddiol neu symud y cynnig cyfredol i'r lle yn unol ag awgrymiad perchenogion Gwesty'r Victoria. Roedd y cais gwreiddiol yn cydymffurfio gyda'r gofynion o ran gwarchod Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth. Mae'r Gwesty'n cyflogi 45 o bobl ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwahanol achlysuron gan gynnwys priodasau – dylid gwarchod yr olygfa a geir o gefn y Gwesty.

Gofynnodd y Cadeirydd i Mr Owen Evans annerch y cyfarfod i gefnogi'r cais. Soniodd Mr Evans am fanylion y cais a dywedodd:-

- Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tri llawr ar y safle yn 2007;
- Bydd uchder cyffredinol y datblygiad arfaethedig yr un fath ag uchder y datblygiad a gymeradwywyd yn 2007;
- Bydd maint a màs yr adeilad yn llai o gymharu â chynllun 2007;
- Bydd y bloc fflatiau yn gweddu gyda'r 2 floc sydd yn Stryd Paced;
- Mae ôl-troed y cynnig yn llai o gymharu â chynllun 2007;
- Cafodd y cais ei ddilysu ym mis Mehefin 2011 a chafwyd trafodaethau gyda Swyddogion y Cyngor i leddfu'r holl bryderon. Mae argymhelliad y Swyddog yn un o ganiatáu ac mae'r Adran Gadwraeth hefyd yn cefnogi'r cais.
- Mae 90% o'r 2 floc gwreiddiol wedi cael eu gwerthu i bobl leol;
- Bydd y fflatiau'n ychwanegu i'r economi leol ac mae datblygiad Stryd Paced yn gyffredinol wedi gwella economi'r ardal yn fawr drwy ddarparu tai, cyfleusterau i storio a lansio cychod, Siandleri, bwyty Dylan's a bydd Halen Môn yn agor siop yn adeilad y Siandleri yn y dyfodol agos;
- Mae'r Awdurdod Lleol wedi asesu effaith y datblygiad ar yr ardal o gwmpas y tri adeilad rhestredig Graddfa II ac wedi rhoi ystyriaeth arbennig i ddymunoldeb gwarchod yr ardal o gwmpas yr adeiladau hynny. Mae'r ACLl wedi asesu effaith bosibl y datblygiad ar gymeriad neu edrychiad yr ardal gadwraeth er mwyn sicrhau y byddai'r datblygiad yn gwarchod neu'n gwella cymeriad neu edrychiad yr ardal gadwraeth ac wedi dod i'r casgliad y bydd yr effaith yn un cadarnhaol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, dywedodd Mr Evans nad oedd gwaith wedi cychwyn ar gynllun 2007 a bod y cynllun wedi cael ei ddiwygio er mwyn cwrdd â'r angen am dai ac er mwyn lleihau'r effaith ar yr ardal leol. Nid oedd yn gallu cadarnhau pwy sy'n gyfrifol am y wal a rennir.

Dywedodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Keith Evans:-

- Ei fod yn gwrthwynebu'r cais;
- Bod Cyngor Tref Porthaethwy yn daer yn erbyn y cais;
- Bod Gwesty'r Victoria â rhan bwysig ym mywyd Porthaethwy;
- Mae'r cynnig yn gwrthdaro gyda'r ardal gadwraeth a chyda'r tri Adeilad Rhestredig cyfagos;
- Mae diddordeb wedi dwysau o ran datblygu'r ardal hon yn ystod y 15 blynedd diwethaf, ac mae'r un datblygwr wedi cyflwyno nifer fawr o geisiadau. Roedd ganddo amheuon ynghylch cymeradwyo ceisiadau a bod cais pellach yn dilyn sy'n golygu "symud y pyst gôl." Atgoffodd yr Aelodau fod y cais hwn wedi cael ei wrthod 5 mlynedd yn ôl ac nad oedd unrhyw beth wedi newid ers hynny;
- Roedd y Swyddog, yn ei adroddiad cynhwysfawr 22 tudalen, wedi dod i'r casgliad anghywir;
- Cyfeiriodd at baragraff 4 Tudalen 28 yr adroddiad lle cydnabuwyd pwysigrwydd Gwesty'r Victoria fel Adeilad Rhestredig ynghyd ag effeithiau andwyol y cynnig o safbwynt gweledol ac economaidd;
- Pwysleisiodd fod gan Adeiladau Rhestredig yr hawl i olygfa a'r hawl i rywun edrych arnynt;
- Roedd o'n credu bod tystiolaeth gref ar gael i wrthod y cais ac y gellid ennill apêl petai raid;
- Canmolodd bolisïau gwarchod y Swyddogion o ran Adeiladau Rhestredig ond mynegodd siom mewn perthynas â'r casgliad afresymegol, anhygoel y daeth y Swyddog iddo yn ei adroddiad.

Draft

Dyfynnodd y Cynghorydd K.Hughes o ddogfennau yn ymwneud ag Adeiladau Rhestredig a dywedodd y byddai'r cynnig yn gyfraniad negyddol i arwyddocâd yr asedau ac yn effeithio ar y gallu i werthfawrogi’r asedau. Roedd yn credu bod hyn yn berthnasol i Westy'r Victoria. Ar hyn o bryd, gellir gweld Gwesty'r Victoria o'r lôn isaf, ond os cai’r cynnig ei ganiatáu, byddai’r olygfa honno wedi ei chuddio.

Cynigiodd bod y cais yn cael ei wrthod a hynny’n groes i argymhelliad y Swyddog.

Tynnodd y Cynghorydd H.Thomas sylw at y nifer o bobl oedd yn cael eu cyflogi yng Ngwesty Victoria a'r effaith bosibl y byddai'r cynnig hwn yn ei gael ar y 45 hynny. Roedd yr ardal wedi’i dynodi’n Ardal Gadwraeth yn 2004 am resymau penodol. Cyfeiriodd at Bolisi Cynllunio Cymru 657 oedd yn amlwg yn diogelu yn erbyn effaith ar Adeilad Rhestredig neu osodiad. Atgoffodd yr Aelodau bod yna dri Adeilad Rhestredig yn yr ardal arbennig hon. Siaradodd am y Seminar a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2012 lle'r oedd cyfeiriad arbennig wedi ei wneud at Adeiladau Rhestredig ac o dan Gylchlythyr 61/96 roedd angen diogelu adeiladau o'r fath. Terfynodd trwy dynnu sylw at y ffaith bod y cais hwn yn un oedd yn tynnu’n groes i bolisïau.

Eiliodd y cynnig bod y cais yn cael ei wrthod a hynny’n groes i argymhelliad y Swyddog.

Roedd y Cynghorydd Lewis Davies am gytuno gyda sylwadau’r Cynghorydd Thomas.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod yr adroddiad wedi’i baratoi gan y Pennaeth Gwasanaeth a chadarnhaodd bod yr holl ddyletswyddau cyfreithiol wedi'u bodloni. Roedd yn amlwg, meddai, bod yna wahaniaeth barn rhwng y rhai sy’n Cefnogi a rhai sy’n Gwrthwynebu’r cais a rhwng y Swyddogion a’r Aelodau. Ystyriwyd hefyd yr effaith ar yr Adeiladau Rhestredig a’r Ardal Gadwraeth; ond o safbwynt ymarferoldeb economaidd, nid oedd mewn sefyllfa i wneud sylwadau. Roedd yn credu bod y casgliadau oedd yn yr adroddiad yn rhai hynod berthnasol. Cadarnhaodd mai’r argymhelliad oedd un o ganiatau.

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Swyddog.**
**Y rhesymau a roddwyd am y penderfyniad oedd y byddai’r cynnig yn cael effaith niweidiol ar yr Ardal Gadwraeth ac ar dri Adeilad Rhestredig oedd gerllaw.**

**Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, cafodd y cais ei ohirio’n awtomatig i’r cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i Swyddogion baratoi adroddiad yng nghyswllt y rhesymau a roddwyd tros wrthod y cais.**

*(Ni wnaeth y Cynghorydd John Chorlton, W.T.Hughes ac R.L.Owen gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio ar y cais gan nad oeddent wedi bod yn bresennol ar yr ymweliad safle).*

**7.4 – 41C125A – Cais llawn i leoli anemomedr 60m o uchder dros dro ar dir yn Bryn Eryr Uchaf, ger Pentraeth.**

Yr Aelod Lleol oedd wedi gofyn am i’r cais gael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor.

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf fe benderfynodd y Pwyllgor wrthod y cais a hynny’n groes i argymhelliad y Swyddog. Y rheswm a roddwyd dros wrthod y cais oedd y byddai’r anemomedr arfaethedig yn cael effaith weledol niweidiol ar y dirwedd oherwydd maint y strwythur.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod dau lythyr arall wedi cael eu derbyn yn gwrthwynebu’r cais ond nid oedd unrhyw wybodaeth ychwanegol yn y llythyrau hynny. Roedd ei argymhelliad yn parhau i fod yn un o ganiatáu.

Cynigiodd y Cynghorydd Hefin Thomas ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Eric Roberts bod y cais yn cael ei wrthod.

**PENDERFYNWYD cadarnhau’r penderfyniad i wrthod y cais yn groes i argymhelliad y Swyddog.**

Draft

*Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio wrth yr Aelodau y byddai hyfforddiant yn cael ei drefnu yng nghyswllt tyrbinau gwynt cyn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Ychwanegodd y byddai'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Drafft yn cael ei drafod ar ddiwedd y Pwyllgor Sgriwtini Amgylcheddol a Gwasanaethau Technegol ar 26 Gorffennaf ac y byddai, wedi hynny, yn destun ymgynghori am gyfnod o chwe wythnos. Roedd yn disgwyl y byddai'r Cyfarwyddyd yn weithredol cyn diwedd 2012.*

**8 CEISIADAU ECONOMAIDD**

Dim i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**9 CEISIADAU TAI FFORDDIADWY**

Dim i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**10 CEISIADAU'N TYNNU'N GROES I BOLISI**

**10.1 – 19C641H – Cynlluniau llawn i godi wyth annedd ynghyd ag adeiladu mynedfa newydd i gerbydau ar dir ger Stad Parc Garreglwyd, Caergybi**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor fel un oedd yn tynnu'n groes i Gynllun Lleol Ynys Môn a hefyd i'r Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd, ond gyda'r Swyddogion yn bwriadu ei ganiatáu.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts bod y cais yn cael ei ganiatáu ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd J.Chorlton.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.**

**10.2 – 30C293D – Cais amlinellol gyda rhai materion wedi'u cadw wrth gefn i ddymchwel yr adeiladau presennol yn rhannol a chodi annedd newydd ar dir ger Parc Gwyliau Bwlch, Bwlch, Tynygongl.**

Roedd y cais yn tynnu'n groes i'r Cynllun Lleol ac o ystyried y pwysau y gellir ei roi i'r CDU mae'n cael ei ystyried yn dderbyniol ac felly yr argymhelliad oedd un o ganiatáu.

Cynigiodd y Cynghorydd K.Hughes bod y cais yn cael ei ganiatau ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd J.Chorlton.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.**

**11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION**

**11.1 – 19C222G – Cais llawn i godi 3 anedd yn Hen Neuadd y Sgowtiaid, Garreg Domas, Caergybi.**

Roedd y cais wedi ei ddwyn gerbron y Pwyllgor oherwydd bod yr ymgeisydd yn perthyn i "swyddog perthnasol" fel y'i diffinnir ym mharagraff 4.6.10.2 y cyfansoddiad. Roedd y cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol o dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Cynigiodd y Cynghorydd John Chorlton bod y cais yn cael ei ganiatau ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd E.Roberts.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn yr adroddiad.**

Drafft

**12 GWEDDILL Y CEISIADAU**

**12.1 – 12C266G – Dymchwel unedau 7 i 10 a chodi 4 sied yn eu lle, gwaith altro i'r adeilad presennol ac adeiladu bloc mwynderau ym Mhenrhyn Safnas, Biwmares.**

Roedd y cais hwn gerbron y Pwyllgor oherwydd mai Cyngor Sir Ynys Môn yw perchennog y tir.

Cynigiodd y Cynghorydd John Chorlton bod y cais yn cael ei ganiatau ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd K.Hughes.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r newid i amod 7 er mwyn egluro geiriad yr amod hwnnw.**

**12.2 – 14C231 – Cais llawn am waith gwella, sef lle plannu blodau o waith carreg leol ar dir ger Ty Sardis, Bodffordd.**

Daethpwyd a'r cais gerbron y Pwyllgor oherwydd mai Cyngor Sir Ynys Môn yw perchennog y tir.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts bod y cais yn cael ei ganiatau ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd J.Chorlton.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.**

**12.3 – 19C1058A – Cais llawn i godi estyniad deulawr yng nghefn 52 Stryd Cambria, Caergybi LL65 1NH.**

Yr Aelod Lleol, y Cynghorydd C.L.Everett oedd wedi gofyn am i'r cais hwn gael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais hwn yn unol â chais y Swyddog.**

**12.4 – 19C1098 – Cais llawn i newid defnydd y cyn swyddfa bost yn siop gludo bwydydd poeth i ffwrdd yn 4 Teras yr Eglwys, Caergybi.**

Yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes oedd wedi gofyn am i'r cais hwn gael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor. Argymhelliad y Swyddog oedd gwrthod.

Cynigiodd y Cynghorydd Eric Roberts bod y cais yn cael ei wrthod ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Eurfryn Davies.

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog ac am y rhesymau oedd i'w gweld yn adroddiad y Swyddog.**

**12.5 – 25LPA811B/CC – Addasu cyn annedd ac adeiladau allanol yn 3 annedd ynghyd a gosod gwaith trin carthffosiaeth newydd ac addasu'r fynedfa bresennol yn Prys Owain Fawr, Carmel.**

Y Cyngor Sir oedd yn cyflwyno'r cais ac argymhelliad y Swyddog oedd caniatáu'r cais.

Cynigiodd y Cynghorydd K.Hughes bod y cais yn cael ei ganiatau ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd J.Evans.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.**

Draft

**12.6 – 33C289B – Cais llawn i ddymchwel yr annedd a'r garej, codi pedair annedd ddeulawr ar wahan a gwneud gwaith altro i'r fynedfa i gerbydau yn Tŷ Newydd, Pentre Berw.**

Yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Eric Jones oedd wedi gofyn am i'r cais ddod gerbron y Pwyllgor. Roedd y Swyddog yn argymell rhoddi caniatâd.

Siaradodd Mr Rhys Davies o blaid y cais. Dywedodd bod yna ganiatad amlinellol am bedair annedd ar y tir. Roedd rhai wedi gwrthwynebu'r caniatâd cyntaf hwnnw, ond roedd yr egwyddor wedi'i sefydlu. Roedd yr Adran Priffyrdd wedi sicrhau gwelliant i'r cynnig amlinellol trwy gynnwys lle pasio ar y briffordd.

Dywedodd y Cynghorydd Jones ei fod yn gwrthwynebu'n gryf iawn a darllenodd ran o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2011 lle'r oedd yn credu bod yr aelodau wedi cael eu camarwain ynglŷn â chyfyngiadau traffig a llefydd troi gan nad oes yna unrhyw gyfyngiadau ac roedd y ffordd yn dod i derfyn heb unrhyw lefydd pasio. Roedd am annog yr Aelodau i ymweld â'r safle gan ei fod yn credu fod ei hygrededd wedi cael ei ragfarnu.

**PENDERFYNWYD y dylid ymweld â'r safle yn unol â chais yr Aelod Lleol fel y gellid egluro'r sefyllfa.**

***Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod yr Ymweliadau Safle wedi cael eu gohirio ac y byddant nawr yn cael eu cynnal ar 22 Awst oherwydd y bydd Sioe Môn yn cael ei chynnal ar 15 Awst.***

**12.7 – 34C637 – Ffurfio mynedfa newydd ar dir rhwng Plas Arthur a Chanolfan Penrallt, Penrallt, Llangefni.**

Dygwyd y cais i'r Pwyllgor oherwydd bod rhan o safle'r cais ar dir y Cyngor. Roedd y Swyddog yn argymell rhoi caniatâd.

Cynigiodd y Cynghorydd John Chorlton bod y cais yn cael ei ganiatau ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.**

**12.8 – 34LPA121N/CC – Amrywio amodau (06) a (07) o ganiatad cynllunio 34LPA121M/CC/ECON yn Ysgol Gyfun, Llangefni.**

Dygwyd y cais gerbron y Pwyllgor oherwydd mai Cyngor Sir Ynys Môn oedd yr ymgeisydd a pherchennog y tir. Argymhelliad y Swyddog oedd caniatáu.

Cynigiodd y Cynghorydd John Chorlton bod y cais yn cael ei gymeradwyo ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Eric Roberts.

**PENDERFYNWYD canatau'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.**

**12.9 – 34LPA121P/CC – Gosod uned bwyler pelenni coed biomas mewn cysylltiad â'r ysgol newydd sydd i'w chodi ar dir Ysgol Gyfun, Llangefni.**

Roedd y cais hwn wedi'i adrodd i'r Pwyllgor gan mai Cyngor Sir Ynys Môn yw'r ymgeisydd a pherchennog y tir. Roedd y Swyddog yn argymell rhoi caniatâd yn amodol ar beidio a derbyn unrhyw wrthwynebiad gan Adain Gwasanaethau Amgylcheddol y Cyngor.

Cynigiodd y Cynghorydd John Chorlton bod y cais yn cael ei ganiatau ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Hefin Thomas.

Draft

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.**

**12.10 – 34LPA791B/CC – Gosod system PV heulol 8kw ar do Canolfan Fusnes Ynys Môn, Bryn Cefni, Stad Ddiwydiannol, Llangefni.**

Roedd y cais gerbron y Pwyllgor gan mai Cyngor Sir Ynys Môn yw perchennog y tir. Argymhelliad y Swyddog oedd rhoi caniatâd.

Cynigiodd y Cynghorydd Eurfryn Davies bod y cais yn cael ei ganiatau ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Hefin Thomas.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau oedd yn ei adroddiad.**

**13 MATER ARALL**

**13.1 – Tyrbin Gwynt neu Ddatblygiadau Cysylltiol.**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio mewn perthynas â sylwadau a dderbyniwyd gan drydydd parti ynglŷn â thyrbinau gwynt a datblygiadau cysylltiol. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at y nifer fawr o sylwadau a dderbyniwyd ynglŷn â cheisiadau unigol a'r costau oedd yn gysylltiedig â chydnabod pob un o'r sylwadau hynny. Roedd Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio, felly, wedi penderfynu y byddai'r arfer cyfredol o gydnabod a hysbysu trydydd parti o benderfyniadau'n ymwneud â thyrbinau gwynt a datblygiadau cysylltiol, yn dod i ben am y tro.

Roedd y Cynghorydd Hefin Thomas yn anghytuno gyda'r penderfyniad a wnaed ac roedd yn credu y dylid cydnabod pob llythyr fel mater o gwrteisi. Roedd y Cynghorydd Chorlton yn cytuno gyda'r Cynghorydd Thomas ac ychwanegodd y dylai'r penderfyniad fod wedi cael ei wneud gan y Pwyllgor ac nid gan Swyddog. Roedd y Cynghorwyr Eurfryn Davies, Jim Evans ac Eric Roberts yn cytuno gyda'r sylwadau hynny.

Pwysleisiodd yr Aelod Portffolio, y Cynghorydd R.Ll.Hughes nad yw'n ofyn statudol i'r adran gydnabod pob cysylltiad a bod yn rhaid ystyried y costau o wneud hynny. Fodd bynnag, roedd am sicrhau'r Aelodau y byddai'n adrodd am safbwyntiau'r Pwyllgor wrth y Swyddog priodol.

**PENDERFYNWYD gofyn i'r Deilydd Portffolio drafod y mater hwn ymhellach gyda'r Swyddog a chyfleu safbwyntiau a phryderon y Pwyllgor.**

Draft

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 2.40p.m.

**Y CYNGHORYDD J.ARWEL ROBERTS**
**CADEIRYDD**